

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 20/4/2015
Minutes of the meeting held on Monday evening 20/4/2015

Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Mr Elfed Jones, Mrs Marilyn Hughes, Mrs Julia Dobson, Mr Dei Owens, Mr David Livingstone, Mr Jack Longman

Cynghorwyr Sirol/ County Councillors:

Cyng./Cllr Wil Hughes

Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu / Translation), Mr Jac Jones (Cwmni Talybolion), Mr Eric Torr (Cwmni Talybolion)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Cyng./Cllr Richard Jones, Mr Tony Hughes, Mrs Carys Davies, Ms Rose Griffiths

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.

Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio (cyffredinol) / *Planning (general)* – Wil Hughes

Cynllunio – 6 Maes Padrig - *Planning* – Derek Owen

Wylfa Newydd – Julia Dobson

3 Cwmni Talybolion – Datblygiad Nant y Fran Development

Cafwyd grynodedb gan Jac Jones o gefndir prosiect Cwmni Talybolion. Deallwyd mai partneriaeth ydoedd rhwng Menter Mechell a Chwmni Cemaes. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi gefnogi'r syniad gwreiddiol o godi tyrbîn gwynt er budd y gymuned. Mae tir ar Stad Brynddu wedi ei glustnodi ar gyfer tyrbîn o'r fath drwy garedigrwydd Mr Robin Grove-White.

Cafwyd wybod bod arian wedi ei sicrhau gan y cwmni er mwyn cwblhau arolygon ac astudiaethau, a bod y prosiect ar fin rhoi cyflwyno cais cynllunio llawn. Pwysleiswyd nad oedd y cwmni wedi cuddio unrhyw wybodaeth gan y gymuned, ond hefyd nad oedd y prosiect wedi ei hyrwyddo hyd yma gan nad oedd unrhyw sicrwydd y buasai yn llwyddo. Deallwyd bod y cwmni wedi cyrraedd cam hyrwyddo ac ymghyngori erbyn hyn.

Cafwyd draws-doriad o gostau codi a chynnal y tyrbîn, a hefyd yr arian all ddod yn ol i'r gymuned dros gyfod o amser - £3.5 miliwn dros oes y prosiect. Bydd yr arian yma ar gael er budd y gymuned i gefnogi cynaladwyedd, yr amgylchedd, y gymuned, treftadaeth a diwylliant ac iaith. Dim ond cymunedau Mechell a Llanbadrig fydd yn gynnwys.

Deallwyd bod nifer o brosiectau tebyg yn yr Alban, a bod prosiect ynni cymunedol hefyd yn Abergwyngregyn (tebyg o ran maint ond ynni dwr).

Mae angen i'r cwmni ddangos cefnogaeth gymunedol er mwyn sicrhau arian i fedru cyflwyno cais cynllunio am y prosiect. Bydd angen codi £300k tuag at y prosiect os fydd yn mynd yn ei flaen.

Deallwyd byddai'r tyrbîn yn debyg o ran cynllun i rai eraill yn yr ardal, bydd yn 500kw, 45m i'r hub, a 70m i'r llafn (tebyg i dyrbin Tai Hen).

Pwysleiswyd bod y prosiect yma a phrosiect Rhyd y Groes yn ddau brosiect annibynnol.

Cytuno bod angen edrych ar bob cais cynllunio yn unigol a pheidio edrych yn unig ar fudd ariannol. Mae teimladau cymysg yn y gymuned, a chredwyd bod angen cyfarfod agored cyn gynted â phosib er mwyn rhannu gwybodaeth a denu cefnogaeth. Cytuno bod angen trefnu digwyddiad cyhoeddus, ond bod angen bod yn ofalus nad oedd rhoi llwyfan i bobl allanol ddod i wrthwynebu a ffraeo. Prosiect i'r gymuned yw hon a barn y gymuned sy'n bwysig.

Mewn egwyddor cytunwyd bod y prosiect yn syniad da ond i'r gymuned ei gefnogi.

Byddai'r incwm o'r tyrbîn yn cael ei weinyddu gan banel, a gan nad yw'r cwmni yn elusen gofrestredig, bydd mwy o ryddid ar sut fudd yr arian yn cael ei wario. Bydd prosiectau e.e. paneli solar ar adeiladau cymunedol yn cael blaenoriaeth. Cadarnhawyd y byddai'r gymuned gyfan yn cael ei drin yn gyfartal ac na fyddai iaith yn rhwystr. Byddai syniad cael rhestr o brosiectau posib cyn cyfarfod cyhoeddus fel bod modd cynnig esiamplau.

Diolchwyd i Jac Jones ac Eric Torr am eu hamser ac am ddod i annerch y cyfarfod.

Jac Jones gave a summary of the background of Cwmni Talybolion and how it came about. It was understood that it is a partnership between Menter Mechell and Cwmni Cemaes. Members were reminded that the Council had been supportive of the initial idea to erect a wind turbine for the benefit of the community. Land on the Brynddu Estate has been identified for such a turbine through the generosity of Mr Robin Grove-White.

Funding has been secured by the company to complete studies and surveys, and the project is at the point of submitting a full planning application. It was emphasised that the company has not hidden anything from the public, and that it has not either promoted the project or its activities as there was no guarantee that it would succeed. It was understood that the company has now reached a promotion and consultation stage in the development of the project.

A cross section of the costs for erecting and maintaining the turbine was given, along with the income expected for community benefit over the life of the project - £3.5m over the life of the turbine. This funding will be available for community benefit to support sustainability, the environment, the community, heritage and culture and language. Only Mechell and Llanbadrig communities will be eligible.

It was understood that there are similar projects in Scotland, and also at Abergwyngregyn (similar size but a hydro project).

The company needs to demonstrate community support to secure funding to submit a planning application. There will be a need to raise £300k towards the project should it get the go ahead.

It was understood that the turbine would be of a similar design to others in the area. It would be 500kw, 45 to the hub and 70m to the tip (similar to that at Tai Hen).

It was emphasised that this project and the Rhyd y Groes development are two separate entities.

It was agreed that each planning application needs to be considered on its own merit and not on community benefit alone. There are mixed feelings in the community, and it was believed that a public meeting is required as soon as possible to disseminate information and gain community support. It was agreed that there was a need for a public event, but being careful not to provide a stage for external bodies to oppose and argue. This is a project for the community and it is the community's view that is important.

In principle, it was agreed that the project was a good idea as long as the community was supportive.

The income from the turbine would be administered by a panel, and as the company is not a registered charity, there will be more freedom as to how the fund is distributed. Projects such as solar panels on

community buildings would be prioritised. It was confirmed that the community on a whole would be treated equally and that language would not be a barrier. A list of possible projects would be beneficial to provide examples at a public meeting.

Jac Jones and Eric Torr were thanked for their time and for addressing the meeting.

4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Marilyn Hughes, eiliwyd gan Elfed Jones.

The minutes were accepted as a true record. Proposed by Marilyn Hughes, seconded by Elfed Jones.

5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

5.1 Toiledau / Toilets

Deallwyd nad oedd toiledau'r traeth yn barod i'w hagor a bod problemau'n parhau. Cytuno bod rhaid i'r adeilad fod yn berffaith cyn i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb ohono. Gofynnwyd i Elfed Jones gysylltu â Steffan Hughes i geisio datrys y sefyllfa cyn i'r Cyngor gysylltu â Mr Dewi Williams i ddatgan ein hanghydfod.

It was understood that the beach toilets are still not ready to be opened and problems continue. It was agreed that the building needs to be 100% before the Community Council assumes responsibility. Elfed Jones was asked to contact Steffan Hughes to address the issue before the Council contacts Mr Dewi Williams to voice our concerns.

5.2 Croesfan / Crossing

Cafwyd diweddariad o'r sefyllfa gan Mr Huw Percy drwy e-bost. Bydd y groesfan yn cael ei hagor cyn gynted â phosib dan ofal gofalwr yr Ysgol.

An update was given my means of an email from Mr Huw Percy. The crossing will be re-instated as soon as possible and will be managed by the school caretaker.

5.3 Blwch Post / Post Box

Bydd blwch post yn cael ei osod y tu allan i McColls yn y pentref. Mae disgwyl i'r gwaith gael i gwblhau o fewn 4 mis.

A post box is to be installed outside McColls in the village. The work is expected to be completed within 4 months.

6 Cyllid / Finance

Adroddiad y Pwyllgor / Finance Committee Report

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod diwethaf gan Marilyn Hughes, a chafwyd diweddariad ar rai o'r materion a drafodwyd.

- Les Cae Chwarae Tregele - nid yw'r perchnogion am werthu'r tir. Cytuno bod £335 y flwyddyn yn ormod o rent i'w dalu am ddarn bach o dir (cyfanswm gan gynnwys £85 y Cyngor Sir). Deallwyd bod Pwyllgor y Cae wedi cynnig talu hanner y gost ond cytunwyd nad oedd hyn yn deg ac nad oedd y Cyngor yn fodlon iddynt wneud hynny. Cytuno cysylltu eto a chyfreithiwr y perchnogion a chynnig rhent o £150 y flwyddyn am gyfnod o 10 mlynedd.
- Les Cae Pêl droed - Cadarnhawyd bod y les gan y cyfreithiwr, a bod disgwyl i'r Clwb Pêl droed gadarnhau eu bod yn hapus i'w arwyddo cyn bod copïau swyddogol yn cael eu paratoi. Mae Dr Tom Conway wedi bod mewn cysylltiad â nifer o aelodau'r Cyngor i geisio brysio'r sefyllfa, ond mae'r mater yn nwylo'r cyfreithwyr, ac fe gytunwyd bod rhaid i'r les gael ei gwblhau yn gyfreithiol.
- Roedd yr aelodau yn fodlon penodi Mr John Roberts yn archwilydd mewnol, a chafwyd wybod bod archwiliad allanol i gymryd lle ddiwedd mis Mai.
- Cytuno bod angen gwaith i ddiogelu'r sied yn y fynwent.
- Cytuno bod angen cyfarfod i geisio am arian ar gyfer goleuadau Nadolig. Deallwyd bod y Bartneriaeth eisoes yn edrych ar wahanol grantiau posib.

- Diolchwyd i'r Clerc am baratoi adroddiad cyllidol 2014/15. Roedd copïau a'r gael i'r rheini oedd am ei weld.

Marilyn Hughes gave a report from the last meeting, and members were given an update on some of the matters discussed

- *Tregele Play Area Lease – the owners do not wish to sell the land. It was agreed that £335 per annum was too much rent to pay for a small piece of land (total including IACC). It was understood that the Play Area Committee had offered to pay half the cost but it was agreed that this would be unfair, and that the Council would not allow them to do so. Agreed to contact the owners' solicitor again proposing a ten year lease at £150 per annum.*
- *Football Field Lease – It was confirmed that the lease was with the solicitor, waiting on the Club's solicitor to confirm that they are happy before engrossed copies are to be produced. Dr Tom Conway has been in contact with a number of Council Members to finalise the matter quickly, but the lease is in the solicitors' hands and must be completed following legal procedures.*
- *The members were happy to appoint Mr John Roberts as the internal auditor, and those present were informed that the external audit was set to take place at the end of May.*
- *Agreed that work was required to secure the cemetery shed.*
- *Agreed that a meeting is required to apply for funding for the Christmas Lights. It was understood that the Partnership are already looking at possible grants.*
- *The Clerk was thanked for the 2014/15 financial report, copies of which were available for those interested.*

7 Cynllunio / Planning

Trafodwyd pum cais / five applications were discussed -

- *6 Maes Padrig – dim gwrthwynebiad / no objection*
- *1 Ffordd y Wylan - pryderon efallai bod maint y datblygiad am beri gofid i gymdogion. Gadael y penderfyniad i'r swyddogion cynllunio. / concerns that the size of the development may concern neighbours. Agreed that the planning officers make the decision.*
- *Cloch Llanw ac Amser / Time and Tide Bell - Cais y Cyngor Cymuned - Gadael y penderfyniad i'r swyddogion cynllunio. / Community Council's application - Agreed that the planning officers make the decision.*
- *Peibron – dim gwrthwynebiad / no objection*
- *Rhyd y Groes - cyfarfod arbennig 27/4/2015 i drafod ymhellach / special meeting 27/4/2015 to discuss further.*

8 Lles Cymunedol / Community Well-being

Dosbarthwyd copïau o ddogfen wedi ei baratoi gan Julia Dobson yn amlinellu gofynion statudol y Cyngor yn ymwneud a lles cymunedol, a hefyd yn amlinellu beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn barod mewn ymateb i hyn. Trafodwyd cynnwys y ddogfen a diolchwyd i Julia Dobson am ei gwaith.

Copies of a document prepared by Julia Dobson were distributed. The document outlined the Council's statutory duties with regard to wellbeing as well as what the Council is already doing in response. The content of the document was discussed and Julia Dobson was thanked for her work.

9 Gohebiaeth / Correspondence

9.1 *Cafwyd diweddariad gan Horizon am Glwb Cymdeithasol Wylfa. Nid oedd yr aelodau yn hapus a'i gynnwys a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Alan Raymant i'w wahodd i gyfarfod cyn gynted â phosib.*

An update was provided by Horizon regarding the Wylfa Sports and Social Club. The members were not happy with the content of the letter and the Clerk was asked to contact Alan Raymant to invite him to a meeting as soon as possible.

9.2 *Cafwyd e-bost gan GeoMon yn diolch a gwerthfawrogi gwaith, cefnogaeth a chydweithrediad y Cyngor. An email from Geo-Mon thanking and appreciating the Council's work, support and co-operation.*

9.3 Rhifyn diweddaraf Y Llais (Un Llais Cymru) / *Latest edition of The Voice (One Voice Wales)*

9.4 Grandwch Community Voice – gwybodaeth am ddiwyddiad yn Nhafarn y Gors 30/4/2015.
Information regarding an event at Tafarn y Gors 30/4/2015.

10 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

10.1 Ffens ar y ffordd i mewn i'r pentref - tynnwyd sylw'r aelodau at y ffens ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y ffordd i mewn i'r pentref. Cytuno ysgrifennu atynt i ofyn oedd posib cael rhywbeth mwy deniadol.

Fence on the way into the village – attention was drawn to the fence on National Trust land on the way into the village. It was agreed to write to them asking if they could replace it with something more attractive

10.2 Cerrig 'rumble stones' ger y palmant - roedd damwain ger y siop tsips wrth i unigolyn ddisgyn o'i gadair oliwyd wrth geisio dod oddi ar y palmant i groesi'r lon. Mae'r cerrig yma ger y siop tsips a'r Stag. Gofynnwyd i Wil Hughes gysylltu â'r adran briffyrdd. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr unigolyn i gydnabod y broblem.

Rumble stones by the pavement – there was an accident whereby an individual fell from his wheelchair whilst attempting to cross the road by the chip shop. These stones are by the chip shop and also by the Stagg. Wil Hughes was asked to contact the highways department. The Clerk was asked to write to the individual concerned to acknowledge the issue.

10.3 Cafwyd gwyn am ordyfiant ar dir y Cyngor Sir. Bydd Wil Hughes yn cysylltu â hwy.
A complaint about overgrowth on County Council land. Wil Hughes will contact them.

10.4 Deallwyd bod ci Gwesty'r Harbwr yn rhedeg ar ôl hwyaid eto. Deallwyd bod yr heddlu wedi siarad â'r perchnogion llynedd. Bydd Julia Dobson yn cysylltu â'r Warden Gwn, RSPB a RSPCA i weld beth allwn ei wneud.

It was understood that the Harbour Hotel's dog is chasing ducks again. It was understood that the police had spoken to the owners last year. Julia Dobson will contact the Dog Warden, RSPB and RSPCA to see what can be done.

11 Wylfa Newydd

Cafwyd copïau o lythyrau a gwybodaeth sydd wedi eu hanfon at drigolion lleol er gwybodaeth.
Copies of letters and information sent to local residents have been received for information

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Bydd cyfarfod arbennig i drafod Cais Rhyd y Groes 27/4/2015 am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.
A special meeting to discuss the Rhyd y Groes Application will take place 27/4/2015 at 7pm at the library.

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Mai 18, 2015, am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.
The next full council meeting will be on Monday evening May 18, 2015 at the library for 7pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 o'r gloch. / *The meeting closed at 9.35pm.*